www.xtrapapers.com

Oxford Cambridge and RSA

# I'w agor ar ôl ei dderbyn

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ASTUDIAETH ACHOS WEDI'I RHYDDHAU YMLAEN LLAW**

**IONAWR 2018**

*7298071951*

**CYFARWYDDIADAU I ATHRAWON**

- Gellir rhoi'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr ar unrhyw adeg ar ôl i'r Ganolfan ei dderbyn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- **Rhaid** i chi ymgyfarwyddo â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- **Bydd copi glân o'r deunydd hwn sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw yn cael ei roi i chi gyda'r papur cwestiynau.**
- **Ni** chewch fynd â'r copi hwn o'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

© OCR 2017 [K/503/6025]
DC (SC) 161870

Mae OCR yn Elusen eithriedig

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth i Ddysgwyr**

Mae systemau teledu cylch cyfyng (CCTV) yn cael eu defnyddio i ddarparu diogelwch ychwanegol mewn ardaloedd bregus (*vulnerable*). Maen nhw'n dibynnu ar gamerâu sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau allweddol i anfon signalau yn ôl i nifer bach o fonitorau. Felly, gall ardal fawr gael ei monitro gan dîm cymharol fach. (Senario 1)

Yn aml, mae staff yn cael cyfnodau prawf (*probationary periods*) pan fyddan nhw'n ymuno â sefydliadau. Cyfnod prawf nodweddiadol yw tri mis. Ar ddiwedd y cyfnodau prawf hyn, mae eu haddasrwydd ar gyfer y swydd yn cael ei adolygu. (Senario 2)

**Senario 1**

Mae SecuritechTV yn gosod systemau CCTV mewn ffatrïoedd ac amgylcheddau gweithio eraill at ddibenion gwyliadwriaeth. Bydd gosodiad nodweddiadol yn cynnwys nifer o gamerâu fideo sydd wedi eu cysylltu â phwynt monitro canolog. Gallai'r pwynt hwn ddarparu ffrwd fyw (*live feed*) i nifer o fonitorau neu mae'n gallu cael ei recordio ar ddyfais storio eilaidd ar gyfer ei defnyddio yn ddiweddarach.

Yn ddiweddar, gosododd SecuritechTV system CCTV mewn ffatri newydd sy'n gweithgynhyrchu amrywiaeth o ddyfeisiau electronig. Gan fod gwerth uchel i'r rhan fwyaf o'r dyfeisiau sy'n cael eu gwneud yn y ffatri, a'u bod nhw'n fach ac yn hawdd eu dwyn, gofynnwyd i SecuritechTV sicrhau bod y system wyliadwriaeth yn monitro ardaloedd allweddol o gwmpas y ffatri ble roedd gan staff fynediad at ddyfeisiau cyflawn. Cafodd rhai o'r camerâu sy'n cael eu defnyddio eu gosod fel bod modd eu cylchdroi a'u gogwyddo i newid eu golygfa. Cafodd y system hon ei gosod fel y gallai staff diogelwch wylio'r ffrwd fyw mewn swyddfa ac y gallai gael ei recordio ar ddyfais storio eilaidd er mwyn gallu defnyddio'r recordiad fel tystiolaeth, pe bai angen. Gosododd SecuritechTV ail gyfleuster storio mewn lleoliad pell hefyd, fel bod recordiadau dyblyg o'r ffrwd fyw yn cael eu gwneud.

Pan fydd SecuritechTV yn gosod system CCTV ar gyfer cwsmer, mae hyn yn cynnwys cyfrifiadur bwrdd gwaith sy'n gweithredu'r system. Mae cyfrifon defnyddiwr amrywiol yn cael eu rhoi ar y cyfrifiadur hwn wrth ei osod. Mae'r enw 'Gweinyddwr' yn cael ei roi i'r prif gyfrif gweinyddol a'r cyfrinair rhagosodedig (*default password*) yn cael ei osod i 'Gadewch fi i mewn'. Caiff pob cwsmer ei gynghori i newid y cyfrinair hwn cyn gynted â phosibl. Mae SecuritechTV yn rhoi cyfrifon eraill ar y cyfrifiadur yn ôl yr angen hefyd, ond nid oes gan y rhain yr un lefel mynediad â'r lefel sy'n cael ei rhoi i'r prif gyfrif gweinyddol.

**Senario 2**

Mae HGR Electricals yn defnyddio system CCTV SecuritechTV. Pan fydd yn cyflogi staff newydd, mae'n rhoi pecyn sefydlu newydd i bob gweithiwr. Mae'r pecyn yn cynnwys ffurflen bapur y mae'n rhaid i'r gweithiwr ei llofnodi i gytuno ei fod neu ei bod yn ymwybodol fod y ffatri dan wyliadwriaeth 24 awr gan system CCTV.

Mae Will, sy'n weithiwr newydd, wedi cael ei ddiswyddo (*dismissed*) o HGR Electricals oherwydd, fel cafodd ei ddweud wrtho yn ei adolygiad tri mis, roedd faint o amser roedd yn ei dreulio i ffwrdd o'i ardal waith yn annerbyniol a'i fod wedi cael sawl rhybudd yn ystod y tri mis. Mae Will yn argyhoeddedig mai'r unig dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn oedd tystiolaeth o gamerâu yn ardaloedd gorffwys y staff a'r siop goffi.

Roedd Will yn teimlo bod y diswyddo hwn yn annheg, ac felly penderfynodd ei fod eisiau cymryd camau yn erbyn HGR Electricals. Yn ystod y cyfnod byr yr oedd wedi gweithio yn y ffatri, roedd Will wedi darganfod y Rhif Adnabod Defnyddiwr a'r cyfrinair oedd yn cael eu defnyddio gan ei reolwr. Y diwrnod ar ôl iddo gael ei ddiswyddo, defnyddiodd Will y manylion hyn i fewngofnodi o bell ar rwydwaith y cwmni. Tra oedd ar y rhwydwaith, aeth Will ati i ddileu nifer o ffeiliau allweddol ac anfonodd neges e-bost gas at ei reolwr. Ar ôl ymchwiliad byr, cafodd Will ei adnabod fel yr unigolyn a oedd wedi cyflawni'r gweithredoedd hyn, cafodd ei arestio gan yr Heddlu a'i anfon i'r llys i sefyll ei brawf (*trial*).

© OCR 2017 

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r defnydd o CCTV o fewn sefydliadau. Dylai hyn gynnwys:

- y dyfeisiau caledwedd sy'n cael eu defnyddio mewn system CCTV;
- sut gall delweddau sy'n cael eu casglu gan system CCTV gael eu storio ar gyfer eu hadalw;
- gwahanol ddulliau o greu rhwydwaith cyfrifiadurol ar gyfer CCTV, a manteision ac anfanteision y dulliau hyn;
- materion moesol a moesegol o ran defnyddio CCTV.

Dylech chi hefyd ymchwilio i'r canlynol:

- ffyrdd y gall systemau cyfrifiadurol gael eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod (*unauthorised access*);
- cyfreithiau'r Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â mynediad heb awdurdod at gyfrifiaduron;
- y defnydd o ffurflenni i gasglu a chodio data i'w defnyddio mewn cronfa ddata, yr effaith y mae defnyddio ffurflenni o'r fath yn gallu ei chael ar sefydliad, a sut mae modd lleihau effeithiau negyddol;
- y defnydd o feddalwedd i gynnal gweithrediad effeithlon (*efficient working*) offer cyfrifiadurol.

© OCR 2017

www.xtrapapers.com



OCR
Oxford Cambridge and RSA

**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group; Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2017